| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 TACHWEDD 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – PIZZA HOUSE, 53 FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Pizza House, 53 Ffordd Caergybi, Bangor uchaf, LL57 2HE oddi wrth ddeiliaid y drwydded Gholam Hossein Sadeghi Namaghi a Sarah Louise Sadeghi Namaghi.

Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Lleolir yr eiddo ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo.

Argymhellir oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul/Iau** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 02:30 |
| **Gwen/Sad** | 23:00 - 02:30 | 23:00 – 03:30 |

**Noder** fod yr oriau cau cyfredol yn caniatáu chwarter awr o amser ar gyfer gorffen gweini cwsmeriaid fel bod yr eiddo yn cau am 02:45

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Aelodau unigol a Chyngor Dinas Bangor | 3 e bost - gwrthwynebiad |
| Preswylydd cyfagos | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2 e Bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Aelodau Lleol – Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau aelod lleol , yn bennaf ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel ac oherwydd bod sŵn o'r cerbydau sydd yn dosbarthu bwyd poeth wedi ei archebu dros y ffon eisoes yn tarfu ar gymdogion sydd mewn preswyl fannau cyfagos. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

### Cyngor Dinas Bangor

Derbyniwyd dau e bost gan gynghorwr unigol ac un e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Mynegwyd pryder fod yr eiddo wedi ei leoli yn agos at eiddo preswyl; a bod cymdogion eisoes yn cael eu tarfu

oherwydd sŵn a sbwriel . Nodwyd pryderon yn ogystal fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

**Preswylydd cyfagos**

Mae'r preswylydd yn byw yn agos iawn i'r eiddo ac yn pryderu fod yr ymestyniad mewn oriau yn mynd i danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus; a chyfrannu tuag at yr aflonyddwch sydd ar gynnydd ym Mangor Uchaf.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Safbwynt yr Heddlu yw bod yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl; a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.